# Cofnodion – Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 19 Mawrth 2024

Amser: 09.00 - 09.21

# Preifat

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | David Rees AS (Cadeirydd)<br>Heledd Fychan AS<br>Lesley Griffiths AS<br>Darren Millar AS |
| Staff y Pwyllgor: | Graeme Francis (Clerc)<br>Yan Thomas (Dirprwy Glerc) |
| Eraill yn bresennol | Jane Dodds AS<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd<br>Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd<br>Bethan Davies, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Julian Luke, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Dirprwy Lywydd yr aelodau i'r cyfarfod. Cafwyd ymddiheuriadau gan y Llywydd.

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol i'w cyhoeddi.

## 3 Trefn Busnes

### 3.1 Busnes yr wythnos hon

**Dydd Mawrth**

Rhoddodd y Trefnydd wybod i'r Rheolwyr Busnes am y newidiadau a ganlyn:

- Datganiad gan y Prif Weinidog: Datganiad Ymddiswyddo (30 munud)
- ~~Datganiad gan y Gweinidog Newid Hinsawdd: Y Rhaglen Buddsoddi ar gyfer Llifogydd 2024/25 (30 munud)~~ – *i'w gyhoeddi fel datganiad ysgrifenedig*
- ~~Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol: Ailgydbwyso gofal a chymorth (30 munud)~~ – *i'w gyhoeddi fel datganiad ysgrifenedig*
- Cynnig i atal Rheolau Sefydlog dros dro (5 munud)
- Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i gynnal dadl ar yr eitemau canlynol gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân (5 munud):
    - Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar Y Bil Masnach (Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel) – cynnig 1
    - Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar Y Bil Masnach (Cytundeb Cynhwysfawr a Blaengar ar gyfer Partneriaeth y Môr Tawel) – cynnig 2

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal fel yr eitem olaf o fusnes.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 7.50pm

Dywedodd y Dirprwy Lywydd wrth y Rheolwyr Busnes ei fod yn bwriadu galw ar arweinwyr y pleidiau a chynrychiolydd o'r grŵp Llafur i siarad yn ystod datganiad ymddiswyddo'r Prif Weinidog, ac y bydd y Prif Weinidog yn cael ei alw i ymateb unwaith, yn dilyn y cyfraniadau hynny.

Mynegodd Heledd Fychan siom ar ran grŵp Plaid Cymru y bydd y datganiad ar Ailgydbwyso gofal a chymorth yn cael ei gyhoeddi fel datganiad ysgrifenedig bellach.

**Dydd Mercher**

Dywedodd y Dirprwy Lywydd wrth y Rheolwyr Busnes y bydd yr eitem a ganlyn yn cael ei hychwanegu at agenda dydd Mercher fel yr eitem gyntaf o fusnes, unwaith y bydd hysbysiad yn dod i law bod Ei Fawrhydi wedi derbyn ymddiswyddiad y Prif Weinidog: Enwebu'r Prif Weinidog o dan Reol Sefydlog 8

Dywedodd y Dirprwy Lywydd wrth y Rheolwyr Busnes fod ceisiadau wedi'u cymeradwyo i gynnal gweithgareddau cyfryngau amrywiol yn y Siambr ac o'i chwmpas dros y ddau ddiwrnod nesaf.

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal cyn y Ddadl Fer.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 7.10pm

### 3.2 Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Rhoddodd y Trefnydd wybod i'r Rheolwyr Busnes am y newidiadau canlynol i amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf:

**Dydd Mawrth 16 Ebrill 2024**

- ~~Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Dioddefwyr a Charcharorion (30 munud)~~ – *wedi'i ohirio tan 30 Ebrill*

**Dydd Mawrth 23 Ebrill 2024**

- Rheoliadau Defnydd Mandadol o Deledu Cylch Cyfyng mewn Lladd-dai (Cymru) 2024 (15 munud)

Nododd y Trefnydd fod Cyfnod 3 o Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau) wedi'i drefnu ar gyfer 30 Ebrill ac mai ychydig iawn o fusnes arall y Llywodraeth a fydd yn cael ei drefnu ar gyfer y diwrnod hwnnw oherwydd hyd tebygol y trafodion hynny.

### 3.3 Amserlen busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf

Cytunwyd ar yr ychwanegiadau a ganlyn i amserlen Busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf:

**Dydd Mercher 1 Mai 2024 -**

- Dadl Aelodau o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Deisebau: Gaeaf Cynhesach P-06-1326 Dylai'r Senedd graffu ar y sgandal mesuryddion rhagdalu yng Nghymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl fer (30 munud)

## 4 Deddfwriaeth

### 4.1 Ymateb gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ynghylch amserlen y Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru).

Bu'r Pwyllgor Busnes yn ystyried ymateb gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a chytunodd i'w gais i bennu 26 Gorffennaf 2024 fel terfyn amser ar gyfer Cyfnod 1. Cytunodd y Pwyllgor hefyd ar y dyddiadau eraill ar yr amserlen arfaethedig ar gyfer y Bil.

Dywedodd y Trefnydd nad yw’r Llywodraeth o’r farn bod y newid hwn yn gosod cynsail ar gyfer amserlenni biliau eraill.

### 4.2 Y Broses Craffu ar Ddeddfwriaeth Sylfaenol: Dyddiadau cau ar gyfer cyflwyno gwelliannau

Nododd Pwyllgor Busnes bapur ar y terfynau amser cyflwyno ar gyfer gwelliannau, a oedd yn cynnwys ffocws ar y profiad diweddar o ran Bil Seilwaith (Cymru). Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai swyddogion gyflwyno papur arall yn cynnwys opsiynau posibl ar gyfer ymestyn y bwlch rhwng cyhoeddi grwpiau ar gyfer Cyfnod 2 a Chyfnod 3 a'r trafodion hynny, cyn adolygu'r broses graffu ar gyfer Biliau a fwriedir yn ddiweddarach yn ystod y Senedd hon.

### 4.3 Diweddariad ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gyfeirio’r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atogol (Memorandwm Rhif 2) ar y Bil Dioddefwyr a Charcharorion at y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol a’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad ar gyfer craffu, gyda dyddiad cau o 29 Ebrill 2024 ar gyfer cyflwyno adroddiad.

### 4.4 Llythyr gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad ynghylch eu hadroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliadau a Rhydd-ddaliadau

Nododd y Pwyllgor Busnes y llythyr gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad a chytunodd i ymateb i’r Pwyllgor i dderbyn Argymhelliad 3 yn ei adroddiad ar y Bil Diwygio Cyfraith Lesddaliadau a Rhydd-ddaliadau.

# 5 Pwyllgorau

## 5.1 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog ynghylch slotiau cyfarfod

Trafododd y Pwyllgor Busnes gais y Pwyllgor i gyfarfod ddydd Gwener 26 Ebrill, neu ddydd Gwener arall yn ystod y tymor nesaf, yn dibynnu ar argaeledd y Prif Weinidog newydd, i graffu ar y Prif Weinidog newydd, a chytunodd i'r cais.

Nododd Heledd Fychan ei siom bod cyfarfod yr wythnos hon yn cael ei ganslo ar fyr rybudd o ystyried bod yr amserlen ar gyfer newid Prif Weinidog wedi bod yn hysbys ers peth amser.